

CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU

Adroddiad ar Wrthwynebiadau

**Ymgynghoriad ar y cynnig i drawsnewid addysg
arbennig yn y Fro trwy:**

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn ysgol gynradd Gladstone fel lloeren i Ysgol Y Deri o fis Medi 2021;
- dirwyn Y Daith i ben a sefydlu Canolfan Dysgu a Lles newydd dan reolaeth Ysgol Y Deri o fis Medi 2021; ac
- chodi adeilad newydd ar gyfer disgyblion y Canolfan Dysgu a Lles ar safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023.

Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.

Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os bydd angen.

Cysylltwch â ni ar 01446 760239 er mwyn trefnu hyn.



Cynnwys

Cefndir	3
Adroddiad ar yr Ymgynghoriad	3
Hysbysiad Statudol	3
Gwrthwynebiadau i'r Cynnig	4
Casgliad	12

Cefndir

Cynhaliodd y Cyngor ymarfer ymgynghori o **7 Medi 2020** tan **18 Hydref 2020** ar y cynnig i:

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn ysgol gynradd Gladstone fel lloeren i Ysgol Y Deri (YYD) o fis Medi 2021;
- dirwyn Y Daith i ben a sefydlu Canolfan Dysgu a Lles (CDaLI) newydd dan reolaeth YYD o fis Medi 2021; ac
- chodi adeilad newydd ar gyfer disgyblion y (CDaLI) ar safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023.

Nod yr ymgynghoriad oedd rhoi gwybod i ymgynghoreion rhagnodedig am y cynnig i ad-drefnu'r ysgol sy'n cael ei gyflwyno dan adran 2.3 y Cod Trefniadaeth Ysgolion a chyfeirir at y cynnig fel addasiad ysgol a reoleiddir, sy'n cynnwys;

- cynyddu capasiti ysgol arbennig gan o leiaf 10% neu 20 o leoedd;
- newid math yr anghenion addysgol newydd (AAA) y mae ysgol arbennig yn darparu ar eu cyfer;
- cyflwyno neu ddileu darpariaeth AAA neu unrhyw newid i ddarpariaeth o'r fath; a
- throsglwyddo unrhyw ysgol i safle neu safleoedd newydd.

Roedd y broses ymgynghori yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru fel y'u nodwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Roedd yn cynnig cyfle i ymgynghoreion rhagnodedig yn ogystal ag aelodau'r gymuned leol ddysgu am y cynnig ac i'r corff llywodraethu glywed barn y rheiny oedd â diddordeb ynddo fel y gellid ei ystyried cyn bwrw ati i wneud unrhyw benderfyniadau.

Yn ystod yr ymarfer ymgynghori, derbyniwyd 44 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad sef 18 Hydref 2020. Gofynnwyd i'r ymgynghoreion am eu barn ar dri chwestiwn allweddol (tabl 1). Cyhoeddwyd yr ymatebion yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad.

Tabl 1 - Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad							
“A ydych yn cefnogi'r cynnig i drawsnewid addysg arbenigol?”	Nifer yr ymatebion	Cyfanswm sy'n cefnogi		Cyfanswm nad ydynt yn cefnogi		Cyfanswm sydd heb farn	
		Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
A) Trwy sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn ysgol gynradd Gladstone fel lloeren i Ysgol Y Deri o fis Medi 2021	44	30	68%	2	5%	12	27%
B) Trwy ddirwyn Y Daith i ben a sefydlu Canolfan Dysgu a Lles newydd dan	43	32	74%	9	21%	2	5%

reolaeth Ysgol Y Deri o fis Medi 2021							
C) Trwy godi adeilad newydd ar gyfer disgyblion y Ganolfan Dysgu a Lles ar safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023	44	40	91%	2	5%	2	5%

Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad ar ôl yr ymarfer ymgynghori. Ystyriwyd yr adroddiad ar yr ymgynghoriad gan Gabinet y Cyngor ar 16 Tachwedd 2020.

Hysbysiad Statudol

Ar ôl ystyried yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, penderfynodd Cabinet y Cyngor i fwrw ymlaen â'r cynnig a chymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar y cynnig ar 25 Tachwedd 2020, a sbardunodd y cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 22 Rhagfyr 2020.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad ar wefan Cyngor Bro Morgannwg (www.bromorgannwg.gov.uk/canolfandysgualles) a chafodd ei bostio ar brif fynedfeydd yr ysgolion yr oedd y cynnig yn berthnasol iddynt. Dosbarthwyd copïau o'r hysbysiad i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, llywodraethwyr ac aelodau staff, yn ogystal ag i ymatebwyr a oedd yn dymuno cael eu hysbysu. Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 rhoddwyd copi o'r llythyr a'r hysbysiad i bob sefydliad fel atodiad i'r e-bost yn ogystal â dolen i'r hysbysiad ar y wefan.

Pan fydd gwrthwynebiadau yn dod i law mewn perthynas â hysbysiad statudol, mae'n rhaid cyhoeddi adroddiad sy'n crynhoi'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny.

Gwrthwynebiadau i'r Cynnig

Daeth 1 gwrthwynebiad unigol i law'r Cyngor erbyn diwedd y cyfnod gwrthwynebu. Ceir crynodeb o'r gwrthwynebiad isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Thema Gwrthwynebiad 1: Darpariaeth yn Ysgol Gynradd Gladstone

Mynegodd yr ymatebwr bryderon o ran y ddarpariaeth bresennol nad oedd yn bodloni anghenion ei blentyn sydd ar hyn o bryd yn mynychu'r CAA. Nododd yr ymatebwr y byddai'n well ganddo gau'r uned a'i sefydlu yn rhywle arall mewn amgylchedd mwy diogel.

Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiad a godwyd

Byddai'r cynnig yn arwain at sefydlu'n ffurfiol ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Gladstone a gâi ei rheoli gan y corff llywodraethu ac arweinwyr YYD, ysgol arbennig y Cyngor.

Ni amlygodd arolwg diweddaraf Estyn (mis Mawrth 2019) ar gyfer Ysgol Gynradd Gladstone, unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch y safle neu'r gofal, cymorth ac arweiniad a roddir yn yr ysgol. Amlygodd adroddiad Estyn; 'Mae bron yr holl ddisgyblion yn dangos diddordeb a'u bod yn mwynhau dysgu, ac maent yn ymddwyn yn dda, gan ddangos gofal a phryder dros bobl eraill. Mae'r holl staff yn rhoi gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel sy'n galluogi bron yr holl ddisgyblion i gymryd rhan lawn mewn bywyd yr ysgol.'

Mae'r Loft a'r Burrow yn Ysgol Gynradd Gladstone yn cynnig cyfnodau o gymorth mewn lleoliad addysgol i ddisgyblion yr effeithir arnynt gan drawma yn y gorffennol a thrawma parhaus. Mae'r plant hyn yn dangos ymddygiad hynod heriol. Mae'r tîm o ymarferwyr sy'n wybodus am drawma; gan gynnwys Athrawon Arbenigol, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, a therapyddion arbenigol eraill yn gweithio gyda'i gilydd gyda rhieni'r disgyblion i dargedu anawsterau sy'n berthnasol i ymddygiad y disgyblion sy'n ffurfio rhwystr i ragor o gynhwysiant, cyflawniad addysgol a/neu les. Yn ddiweddar cafodd yr ysgol ei hachredu fel ysgol sy'n wybodus am drawma ac iechyd meddwl a hi yw'r ysgol gyntaf i ennill y statws hwn yng Nghymru.

Cafodd y ddarpariaeth hon ei dreialu dros y flwyddyn academiaidd ddiwethaf a bu'n hynod lwyddiannus wrth fodloni anghenion plant sydd ag anghenion mor gymhleth. Cyn datblygu'r ddarpariaeth hon byddai wedi bod yn anodd bodloni anghenion y disgyblion hyn yn y Fro, a byddai wedi bod angen lleoli llawer ohonynt mewn darpariaeth arbenigol y tu allan i'r sir.

Er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus y ddarpariaeth hon a'i datblygiad yn y dyfodol byddai o fudd i'r ddarpariaeth hynod arbenigol hon fod yn ysgol lloeren dan ymbarél YYD. Bydd hyn yn sicrhau y gall staff sy'n gweithio yn y ddarpariaeth fod yn rhan o dîm ehangach o arbenigwyr. Bydd hyn yn sicrhau mwy o fynediad at gefnogaeth, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol a fydd o fudd i staff a phlant fel ei gilydd.

Cafodd y gwrthwynebiad unigol ei anfon i'r gwasanaeth perthnasol er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon penodol.

Casgliad

Mae'r Cyngor yn dod i'r casgliad y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a safonau addysg yn y Fro trwy roi cymorth arbenigol i ddisgyblion sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl.

Byddai'r cynnig yn adeiladu ar arbenigedd presennol a dulliau llwyddiannus er mwyn sicrhau parhad i ddisgyblion presennol. Mae ymatebwyr yn amlygu llwyddiant y Loft a'r Burrow yn ysgol gynradd Gladstone hyd yn hyn sydd wedi galluogi rhai disgyblion i ddychwelyd at addysg prif ffrwd. Maent yn nodi bod y llwyddiant hwn oherwydd staff ac arweinyddiaeth ymrwymedig Gladstone ac y bydd y ffaith y bydd YYD yn goruchwyllo'r ddarpariaeth yn y dyfodol yn cynyddu gwydnwch y ddarpariaeth. Byddai'r cynnig hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu bodloni ei ddyletswydd statudol i ddarparu nifer digonol o leoedd ysgol ac i fodloni anghenion rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed.

Byddai'r cynnig yn arwain at amgylcheddau addysgu a dysgu priodol a fyddai'n hyrwyddo lles disgyblion a'u hagweddau tuag at ddysgu. Fel y nodwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, mae cyfyngiadau i'r adeiladau a'r safleoedd presennol a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Y Daith. Bydd y (CDaLI) newydd arfaethedig yn darparu digon o le i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 gael eu haddysgu ar safle unigol. Byddai'r adeilad newydd arfaethedig hefyd yn rhoi'r cyfle i gynnig darpariaeth Cyfnod Allweddol 4 llawn-amser a godwyd gan Estyn yn ystod yr arolygiad mwyaf diweddaraf. Câi'r adeilad a'r safle newydd eu dylunio i fodloni anghenion disgyblion a byddent yn cynnig y cyfle i wella'r cwricwlwm. Nodwyd bod hyn yn rhywbeth arbennig o gadarnhaol gan ddisgyblion yn y sesiynau ymgysylltu; roedd y disgyblion yn frwdfrydig am gyfleusterau chwaraeon gwell a mannau "torri allan" digonol. Mae'r adeiladau a'r safle yn ysgol gynradd Gladstone yn faint addas i roi lle i'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA). Byddai'r CAA yn defnyddio cyfleusterau presennol a ddefnyddir ar hyn o bryd i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion trauma cymhleth.

Byddai'r (CDaLI) a'r CAA yn Ysgol Gynradd Gladstone sy'n cael eu rheoli gan YYD yn sicrhau cymorth cyson i ddysgwyr sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl ar draws Bro Morgannwg.